

Dathlu yn Sir Benfro – dawnsio gwerin gyda'r teulu

Dydd Sadwrn, Mehefin 10^{fed} 2017.



Yn ystod 2017 mae Cymdeithas Genedlaethol Dawns Werin Cymru yn dathlu Canmlwyddiant geni Patrick Noel Shuldham-Shaw 1917-1977.

Fel rhan o'r "Dathlu ym Mhob Cwr o Gymru" fe'ch gwahoddir i ymuno â ni yn nathliadau Sir Benfro i anrhydeddu Padrig Farfog (i roi iddo ei enw barddol) am ei gyfraniad i Ddawnsio Gwerin yng Nghymru.

<http://www.patshaw.info/about/>

Gweithdai Dawns, Neuadd y Dref, Penfro SA71 4JS

Mae'r mynediad am ddim – noddwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Dawns Werin Cymru

10.00 11.00 Ar gyfer oedolion a phlant dan oruchwyliaeth – rhown dro ar nifer o ddawnsiau Pat. Dan arweiniad *Dawnsywyr Glanleddau*.

11.00 11.30 Sesiwn ddawnsio a chloccio i blant - dan arweiniad *Dawnsywyr Talog*.

11.00 Egwyl goffi i'r oedolion. Trefnir hwn gan *Tanyard*, grŵp Ieuentid Lleol.

11.30 13.00 Tro ar rai o'r dawnsiau mwy heriol a grëwyd gan Pat. Dan arweiniad *Dawnsywyr Glanleddau a galwyr eraill a wahoddyd*.

Gweithgareddau tawel yn Nerbynfaf'r Neuadd ar gyfer y plant iau - dan arweiniad *Grŵp Llan Llanast Penfro*.

13.00-14.30 *Cinio*. Mwynhewch bryd blasus yn un o dai bwyta tref Penfro. Efallai y dymunwch weld ddadorchuddio cofgolofn newydd i Harri VII am 14.00 - gerllaw'r castell, sef man geni'r brenin

15.15 Ymgynnull wrth fynedfa'r Castell, yn ddelfrydol mewn gwsg ddawnsio. Mynediad am ddim i'r rhai sy'n cymryd rhan.

15.30-16.30 Dawnsio yn y Castell dan arweiniad *Dawnsywyr Tawerin*.

16.30-17.30 Dewis taith dywys o'r Castell / taith o amgylch bragdy bach lleol. Cadw lle yn hanfodol; cysyllter â Mavis.

20.00-23.00. *Trwy docyn yn unig*. £3.00 y pen. Plant dan oruchwyliaeth yn rhad ac am ddim.

Cynhelir Parti Teuluol yn y "Longhouse", Fresh Water East. SA71 5LW - dan arweiniad *Triskellion*, ein grŵp gwerin lleol.

Gellir cerdded yn hawdd i'r "Longhouse" o draeth hyfryd *Freshwater East*. Mae bwyd yn cael ei arlwygo yno hyd at 20.00. Gellir parcio eich car gerllaw - am ddim.

Dydd Sul, Mehefin 11^{eg}, 2017

Mae'r "Longhouse" yn darparu ystod eang o weithgareddau ar gyfer plant ac oedolion. Mae'r rhain yn amrywio o gemau syml ar gyfer plant ar draeth Freshwater East i blymio / syrffio. Am fwy o fanylion cysyllter â info@timefliesltd.com

Efallai y bydd rhai ohonoch yn dymuno ymweld â thraethau hyfryd eraill, cestyll neu drefi De Sir Benfro.

Manylion Llety

Gellir parcio carafán ar dir y 'Longhouse'. Mae llety i'w gael hefyd mewn Gwestai, cartrefi sy'n cynnig Gwely a Brecwast, Bythynnod, ac ati, o amgylch Penfro. Cynghorir chwi i archebu llety cyn gynted â bo modd.

Cysyllter â Mavis Williams Roberts 07970 930476/email abletogrow03@gmail.com

7, Charles Rd, Pembroke, SA71 4AX